Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnodi

DONNE, JAMES (1764 - 1844), offeiriad ac ysgolfeistr

Enw: James Donne
Dyddiad geni: 1764
Dyddiad marw: 1844
Priod: Alice Donne (née Croxon)
Priod: Caroline Donne (née Thomson)
Plentyn: Stephen Donne
Plentyn: James Donne
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: offeiriad ac ysgolfeistr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 14 Chwefror 1764 yn Kingston, sir Faesyfed. Ymddengys iddo dderbyn cyfran o'i addysg dan David Lloyd, Llanbister - gweler NLW MS 4954C . Derbyniwyd ef i Goleg S. Ioan, Caergrawnt, 21 Mai 1784 (B.A. 1788, M.A. 1792, D.D. 1825). Bu'n athro yn ysgol Dr. Thomson, Kensington, 1788, ordeiniwyd ef (yn Henffordd) 30 Mai 1790, a dyfod yn gurad Kington, Swydd Henffordd; cafodd urddau offeiriad ar 17 Mehefin 1791. Daeth yn ail feistr yn y King's School, Caer, 1794, yn gurad Eccleston gerllaw, ac yn ganon yn eglwys gadeiriol Caer. Ychydig yn ddiweddarach gwnaethpwyd ef yn brifathro ysgol ramadeg Croesoswallt; cafodd ficeriaeth Llanyblodwel yn 1798. Priodod (1), 1793, Caroline, merch John Thomson, marsiandwr, Edinburgh, a (2), 1798, Alice, merch John Croxon, Croesoswallt. Llwyddodd i adfer i feddiant ysgol Croesoswallt 26 erw o dir a gollasid iddi oherwydd dibristod rhai o'i ragflaenwyr. Ymddeolodd o swydd prifathro yn 1833 a mynd i fyw i ficerdy Llanyblodwel, lle y bu farw 23 Ionawr 1844. Daeth dau fab iddo, James a Stephen, hanner-brodyr, yn offeiriaid; dilynodd Stephen ei dad fel pennaeth ysgol Croesoswallt.

Y mae yng nghadw yn Ll.G.C. lawer o lythyrau a ysgrifennodd James Donne at (neu a gafodd yntau oddi wrth) rai o Gymry blaenllaw ei gyfnod - Walter Davies ('Gwallter Mechain'), W. J. Rees, Cascob, Hugh Davies, awdur *Welsh Botanology*, Rowland Williams, Ysceifiog, John Jenkins ('Ifor Ceri'), etc.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Venn, *Alumni Cantabrigienses*

The Gentleman's Magazine, 1844, i, 327

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1874-5, 102; 1880-1, 252

Archifau LlGC: NLW MS 1804E, NLW MS 1889E, NLW MS 4954C, NLW MS 6664C, NLW MS 7938C

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733312

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Davies, W. Ll., (1953). DONNE, JAMES (1764 - 1844), offeiriad ac ysgolfeistr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DONN-JAM-1764

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government